# Heddwch

cylchgrawn CND Cymru

Haf 1997
AM DDIM (neu gyfraniad)

# Mayday... Mayday... Argyfwng Rhyngwladol!

## Llywodraeth Newydd

Bydd pobl yn cofio etholiad Calan Mai 1997 fel yr etholiad cyffredinol lle'r oedd polisÿau'r ddwy "brif" blaid mor debyg nes bod y canlyniad yn seiliedig ar ddim mwy na theimlad pobl bod rhaid cael newid ac ar bersonoliaethau'r ddau arweinydd – ai'r "bachan neis sâff" neu'r "chwa o awyr iach" fyddai'n Brif Weinidog.

## Llafur newydd

Roedd CND Cymru'n teimlo'n rhwystredig dros ben am na fynnai'r naill neu'r llall o'r ddwy blaid drafod diogelwch ein pobl yn y dyfodol. Roedd hynny er gwaetha dyfarniad Llys y Byd ym mis Gorffennaf 1996 bod defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn anghyfreithlon: mae Erthygl VI o'r Cytundeb Atal Lledaenu Niwclear yn rhwymo'r gwledydd a'i harwyddodd i ddiarfogi niwclear, ac mae Protocol 1977 Cytundeb Genefa yn gwahardd ymosodiadau ar ddinasyddion cyffredin a "dulliau rhyfela sydd... yn achosi niwed difrifol, parhaus ac eang i'r amgylchedd naturiol".


Mae'r pleidiau Torÿaidd a Llafur ill dwy yn cefnogi cadw systemau arfau niwclear Trident yn barod i'w tanio yn ogystal â defnyddio llongau tanfor niwclear. Dywed Llafur Newydd y byddent yn fodlon cynnwys Trident mewn trafodaethau ar ddiarfogi rhyngwladol, ond ddim nes bydd niferoedd arfau UDA a Rwsia wedi gostwng i'r cannoedd yn hytrach na'r miloedd sydd ganddynt ar hyn o bryd. Mae gan y Rhyddfrydwyr Democrataidd bolisi tebyg i'r blaid Lafur. Mae Plaid Cymru, fodd bynnag, wedi galw'n gyson am ddiddymu Trident er mwyn talu am well dyfodol drwy wario ar iechyd ac addysg.

## Rhaid Gwahardd y Bom Nawr

Datgelodd holiadur cyn-etholiad CND Cymru a aeth at bob darpar-ymgeisydd Seneddol bod llawer o ymgeisyddion Llafur, yn ogystal â rhai Plaid Cymru a'r Blaid Werdd, yn gwrthwynebu arfau niwclear. Mae ein gwaith yn y mudiadau heddwch a gwrth-niwclear yng Nghymru wedi ei gwneud hi'n glir bod Cymru'n dweud "na" wrth Trident. Rhaid i ni ddweud wrth ein ASau Cymreig yn awr y dylent gofio eu traddodiad fel plaid ddyngarol i fynnu bod y Llywodraeth Brydeinig yn atal y gwastraff adnoddau gwallgof hwn gan y diwydiant niwclear sifil a milwrol a rhoi arweiniad moesol i'r byd drwy ddiddymu Trident.

Mae'r gorchmynion a roddir i gapten llong danfor Trident pan fydd ar ddyletswydd ar y môr yn cynnwys y ffaith y dylai fod bob amser "yn barod i danio taflegrau o fewn 15 munud". Ni ddylai unrhyw lywodraeth nag unrhyw unigolyn fod â phwer o'r math hwnnw – rhaid rhoi terfyn ar hyn yn awr, fel mater brys.

*Rod Stallard*




Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

# Gweithredu wedi'r etholiad

Rhannwch eich gobeithion a'ch breuddwydion gyda'ch cynrychiolydd etholedig

Mae rhai'n dweud bod canlyniad yr etholiad cyffredinol wedi trawsnewid pob posibilrwydd; nid yn unig bod y map wedi cael ei ail-dynnu ond bod yr etholiad wedi newid cynnwys y map. Mae pobl gyffredin wedi dangos iddyn nhw'u hunain, yn ogystal â'r rheini mewn grym, y gallant, drwy weithredu gyda'i gilydd, newid pethau.

## Condemnio a chanmol

Er gwaetha'r awyrgylch obeithiol, ac, wrth i ni fynd i'r wasg, y camau tuag at bolisi tramor mwy egwyddorol a mwy ymwybodol o'r amgylchedd gan Robin Cook, rydym yn dal i fod â llywodraeth sy'n dweud y byddai'n fodlon defnyddio arfau niwclear. Mae llawer iawn o waith pwysig o'n blaenau.

## Dyma lle gellwch chi chwarae rhan

Wrth gael ein cario ar frig y don o optimistiaeth sy'n ysgubo drwy Brydain, dylem gofio bod llythyru â'r rheini sydd mewn grym yn newid meddyliau – a gellwch chi newid pethau. Gadewch iddyn nhw wybod ein bod ni yma o hyd ac yn dal i deimlo mor gryf ag erioed!

Mae yna ffordd wych y gallai'r Llywodraeth ddod o hyd i £1.5 biliwn arall yr wythnos i dalu am fwy byth o welliannau mewn addysg a iechyd – rhaid i ni eu hatgoffa.

- Da chi, ysgrifennwch at eich AS yn ei chroesawu/groesawu neu'n ei llongyfarch/longyfarch. Does dim rhaid i lythyron fod yn hir neu'n ysbrydoledig – mynegwch eich gwir deimladau ynglyn â diarfogi – a phwysleisiwch bod Trident nid yn unig yn anfoesol, yn anghyfreithlon ac yn niweidiol i'n hamgylchedd a'n hiechyd, ond ei fod yn costio £1.5 biliwn i ni bob wythnos.
- Ysgrifennwch at Tony Blair a George Robertson, yr Ysgrifennydd Amddiffyn yn dweud yr un peth.

**Mae CND Cymru am eich llongyfarch chi ar lwyddo cael eich ethol i D'r Cyffredin!**

Ymunwn â chi i ddathlu'r ffaith bod Cymru bellach yn wlad "ddi-Dori"! Mae gan y tair plaid wleidyddol sy'n cynrychioli Cymru heddiw yn Senedd San Steffan draddodiad o gefnogaeth i'r achos gwrth-niwclear ac o gadw gwir les y werin bobl yn agos at eu calonnau.

Ein gobaith ni yw y gallwn weithio gyda'n gilydd er mwyn troi Cymru'n wirioneddol ddi-niwclear; i ddylanwadu ar lywodraeth Prydain i roi'r gorau i Trident, sy'n costio £1.5 biliwn yr wythnos; i roi terfyn ar y fasnach arfau gywilyddus, ac i chwilio am ddulliau newydd, di-drais o ddatrys anghyfodau rhyngwladol ac o fewn gwladwriaethau.

Bydd gennych chi rl hanfodol wrth inni adeiladu dyfodol lle gallwn ni, ein plant a phlant ein plant fyw heb ofn.

# Cofio Chernobyl

Coffawyd unarddeg mlwyddiant y ddamwain niwclear yn Chernobyl ledled Cymru. Gan gofio etifeddiaeth ddeifiol technoleg niwclear, condemniodd CND Cymru ffolineb cibddall Magnox Electric sydd wedi cael caniatâd yn ddiweddar i barhau i gynhyrchu trydan yng ngorsaf ynni niwclear Wylfa ar Ynys Môn tan y flwyddyn 2004. Adeiladwyd yr orsaf hon ym 1963 i bara am ugain mlynedd. Mae'r pwysau masnachol o blaid estyn oes gorsafoedd ynni niwclear yn golygu bod y diwydiant niwclear a'r llywodraeth yn fodlon peryglu'n bywydau a'r amgylchedd.

Dangoswyd arddangosfeydd yn Llyfrgell Aberystwyth ac mewn archfarchnadoedd yn Ne Cymru.

Yn glyfar iawn, manteisiodd CND Teifi-Preseli ar y cyfle, ddim ond pum diwrnod cyn yr Etholiad Cyffredinol, i wahodd ymgeisydd pob plaid yng Ngheredigion i wrthdystiad y tu allan i Neuadd y Dref, Aberteifi. Roedd y grŵp am alw sylw at lygredd ymbelydrol ym Môr Iwerddon. Cefnogai pob un o'r pedwar ymgeisydd y digwyddiad. Dywedd Felix Aubell




(Ceidwadwr) "Cefnogaf, mewn egwyddor, bob ymdrech i atal llygredd ymbelydrol rhag llygru ein harfordir a'n hafonydd lleol". Galwodd Hag Harries (Llafur) am arolwg o Sellafield ac effeithiau ymbelydredd lefel-isel ar unwaith. Dwedodd Dai Davies (Rhyddfrydwr Democrataidd) ei fod o blaid ffynonellau ynni amgen a galwodd Cynog Dafis (Plaid Cymru) am roi'r flaenoriaeth uchaf i ynni glân, adnewyddadwy.

*Fe'i magwyd mewn gwlad a redid gan wleidyddion a fyddai'n danfon peilotiaid i hedfan awyrennau bomio i ladd babanod i wneud y byd yn lle diogel i fagu blant ynddo.* Ursula Le Guin



■ *Rali yn Faslane Mehefin 1996. Llun: CND Yr Alban*
■ *Ar y dde: Gwrthdystwyr CND yn nofio at long danfon Trident. Llun: CND Yr Alban*

# Gwersyll heddwch Faslane – symbol gwrthdystio grymus

Cytunodd cyfarfod o Gyngor Argyll a Bute i droi pobl oddi ar safle Gwersyll Heddwch 14-mlwydd oed Faslane. Awdurdod lleol newydd yw hwn a olynodd Gyngor Dosbarth Dumbarton a Chyngor Rhanbarthol Strathclyde yn ddiweddar; roedd y rheini nid yn unig wedi gadael i'r Gwersyll gael bod yno ond yn darparu dŵr a charthffosiaeth i'r protestwyr hefyd. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ddadlau'r achos dros droi'r protestwyr allan yn cynnwys deiseb gan drigolion lleol a gasglwyd ym 1983! Datgelodd arolwg mwy diweddar a wnaed gan CND Yr Alban nad yw trigolion lleol yn gwrthwynebu'r gwersyll bellach.

Derbyniwyd llythyron yn erfyn ar y Cyngor i achub y Gwersyll Heddwch o bedwar ban y byd – yn cynnwys Cymru. Mae Gwersyll Heddwch Faslane yn symbol grymus o'n hawl ddemocrataidd i wrthdystio. Mae Cyngor Argyll a Bute yn dioddef o brinder arian ac mae gwasanaethau cymunedol dan fygythiad. Mae penderfyniad mis Ebrill i droi pobl allan yn cynnwys cynllun drud i osod ffens o gwmpas safle'r Gwersyll Heddwch. Pe bai'r llywodraeth yn ailgyfeirio'r arian a wariant ar Trident i'r Cyngor lleol, gallai hwnnw fforddio diogelu gwasanaethau cyhoeddus sydd dan fygythiad ac adeiladu'r ffens oherwydd ni fyddai angen Gwersyll Heddwch mwyach!

Meddai John Ainslie o CND Yr Alban, "gan ystyried y perygl i'r boblogaeth leol pe bai damwain, a dyfarniad Llys y Byd, yr orsaf longau tanfor Trident ddylen nhw fod am ei chau nid y Gwersyll Heddwch".

**WEITHREDU**
*Ysgrifennwch lythyron yn cefnogi'r Gwersyll heddwch at:*
*James McLellan, Prif Weithredydd, Cyngor Argyll a Bute, Kilmory, Lochgilhead PA31 8RT, Yr Alban. Ffacs: (01546) 604349*
*Danfonwch neugeseuon cefnogol ac arian i'r Gwersyll Heddwch:*
*Gwersyll Heddwch Faslane, Shandon. Helensburgh G84 8HT, Yr Alban*
*Mae newyddion am y Gwersyll ar gael ar: http://ds.dial-pipex.com/cndscot*

Ysbrydolwyd David Mackenzie, CND Stirling, gan yr AS Llafur Chris Smith a ysgrifennodd yn haf 1996 am bleserau cerdded bryniau'r Alban, nid nepell uwch law gwersyll llongau tanfor Faslane, storfa fomiau Coulport ar Loch Long, a'r rhan o Loch Goil lle byddant yn gwneud profion llongau tanfor.

## Ymhell o bob dim

Mae ar graig
fry uwch Gleann Mor,
Dim ond yr awyr, twmpathau glaswelltog
yn glwster o gylch llif araf y nant a'r
diwydrwydd ynghudd mewn gwelyau diog
yw'r cwbl
a adawodd y Cliriadau o'r pentref hwn,
namyn absenoldeb cudd. Mae'r

gwleidydd hwn yn anadlu ymollyngdod
a rhyddhad y tawelwch meddwl maith
a ddaw ar frig yr awel –
ymhell o bob dim.

Mae ar yr esgair
uwch Strath Finnan
ac o'i flaen mae'r rhos eang daeogaidd
yn cuddio'i choedwig o fonion nychlyd,
llwybrau gwartheg mewn inc anweledig,
llinellau ffôl
perchenogaeth a'i
annhrefn dwys, gan roi iddo
ddim ond gwacter rhamantus. Teimla'r

gwleidydd hwn ei hun
yn holliach eto, y mân ymgecru
yn edwino'n braf i'w
lle dibwys yn nhrefn pethau.

Yn awr, ar
Cruach a Chaise
mae'n edmygu bys hir, dyfnwyrdd
Loch Long rhwng y Brack a
bryn Tulloch, tra'n llercian
yng nghongl ei lygad
i'r De a'r Dwyrain mae Coulport a'r
hollt ddiberfeddol o Carraig Mhaol
i Port an Lochain lle cuddiant
bethau anhraethadwy. Mae'r

gwleidydd hwn yn falch o fod
ymhell o bob dim, ymhell
o San Steffan
a gwleidyddiaeth.






## Plwtoniwm yn y Gwagle – syniad arall grêt gan NASA

### Chwilio am beth?

Ar y 6ed o Hydref 1997 mae Asiantaeth Ofod yr UD, NASA, yn bwriadu tanio roced Titan IV a fydd yn cario chwiliedydd gofod i'r blaned Sadwrn, fel rhan o'r Prosiect Cassini ( neu Cas i ni, chwedl rhai!). Bydd y roced hon yn cario 72.3 pwys o blwtoniwm marwol.

Ym mis Awst 1993, ffrwydrodd roced debyg dros y Môr Tawel gan ddanfon cawod o rwbel a deunydd niwclear dros bellter eang. Er y 1960au mae 24 dyfais yn cynnwys deunydd niwclear wedi cael eu danfon i'r gofod – cafodd tair o'r rheini ddamweiniau.

### Rheoli'r boblogaeth?

Mae NASA wedi cyfaddef bod y chwiliedydd hwn yn cynnwys y swm mwyaf o ddeunydd niwclear a ddanfonwyd i'r gofod erioed. ac mae hefyd yn cyfaddef, pe bai damwain, yr effeithid ar 5 biliwn o boblogaeth y byd o 8 biliwn.

### Rheolaeth y CU (UD)

Mae pob gwlad sy'n teithio yn y gofod wedi arwyddo protocol yn y CU o dan y pennawd "Egwyddorion a Defnydd Ffynonellau Ynni Niwclear yn y Gofod". Mabwysiadwyd y Datganiad hwn gan Gynulliad Cyffredinol y CU ar y 14eg o Rhagfyr 1992. Dywed y Datganiad y "cyfyngir ffynonellau ynni niwclear yn y gofod i'r teithiau hynny i'r gofod na ellir eu gweithredu yn rhesymol drwy ddefnyddio ffynonellau ynni di-niwclear". Cysur bychan iawn i ninnau ar y ddaear.

**WEITHREDU**

*Ysgrifennwch at Ysgrifennydd Cyffredinol y CU, Kofi Annan, Pencadlys y CU, Efrog Newydd, NY10017, UDA, yn mynnu y dylai'r gofod fod yn ddi-niwclear.*

*Ysgrifennwch at eich AS (Tŷ'r Cyffredin, Llundain SW1A 0AA) a'ch ASE (cyfeiriadau ar gael gan CND Cymru) yn mynnu bod y llywodraeth newydd a'r Senedd Ewropeaidd yn datgan eu gwrthwynebiad i'r gwallgofrwydd hwn. Mae mwy o wybodaeth am Cassini ar gael gan CND Cymru a'r Florida Coalition for Peace and Justice, Blwch Post 90035, Gainesville, Florida 32607, UDA.*

# Tomen Wastraff Niwclear ar Ynys Môn?

Ym mis Ebrill eleni, gwrthododd y llywodraeth gais gan NIREX (gweithgorff gwastraff ymbelydrol y diwydiant niwclear) am "Labordy Nodweddu Creigiau Tanddaearol" (hynny yw, tomen wastraff niwclear) ger Sellafield, Yn awr, bydd Nirex yn edrych am safleoedd amgen.




Ym 1990 awgrymwyd am y tro cyntaf y byddai cloddfa ar Fynydd Parys, Ynys Môn, a redir gan Anglesey Mining ccc, yn safle posib. Cloddiwyd yno ym 1988 gan Gwmni Cementation Mining sydd yn gontractwyr i Nirex yn Sellafield a Dounreay. Bwriadwyd cloddio 6.5 miliwn tunnell o fwyn er mwyn cynhyrchu copr, sinc a phlwm. Er cwblhau'r gwaith adeiladu, ni chloddwyd dim oddi yno. Mae harbwr dwfn cyfleus ger llaw yn Amlwch yn ogystal â chysylltiadau rheilffordd cyfleus sy'n bod i wasanaethu Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa.

Yn swyddogol, gwadwyd bod y safle hwn yn cael ei ystyried, ond pwy a ŵyr?

Derbynnir yn fwyfwy cyffredinol bellach nad oes y fath beth â dôs ddiogel o ymbelydredd. Ym mis Awst 1958 cyflwynwyd Papur Gwyn i'r Senedd Brydeinig gan y Cyngor Ymchwil Meddygol. Ynddo, ym mharagraff 44, dywedir "nad oes dôs drothwy o ymbelydredd yn bod na fydd camffurfio genetig yn digwydd o dan y lefel honno".

Polisi CND Cymru a'r mudiad gwrth-niwclear yn gyffredinol yw parhau i ymgyrchu i atal cynhyrchu unrhyw ddefnyddiau niwclear, ac o blaid storio unrhyw wastraff sy'n bod eisoes ar y safle lle cynhyrchwyd ef, uwch law wyneb y ddaear, mewn ffurf y gellir ei arwylio ac sy'n hawdd cyrraedd ato.

***Rod Stallard***
***Diolch i Corporate Watch, Bill Pritchard a Chris Grimshaw***

**WEITHREDU**

*Gofynnwch gwestiynau i'r AS a'ch ASE, ac awdurdodau lleol, hysbyswch y cyfryngau a'r wasg leol o'r peryglon.*

*Cyfeiriadau defnyddiol eraill: UK NIREX Cyf., Curie Avenue, Harwell, Didcot, Swydd Rhydychen OX11 0RH. Cementation Mining Cyf., Mynydd Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9RE (01407) 831 274.*

The Children and War Project aims to expose and challenge the influences on the young which make war acceptable. Envelope labels are available from the Peace Pledge Union 41b Brecknock Road London N7 0BT. tel 0171 424 9444 Labels available for £3.80 for 200.



## Dileu 2000 – rhwydwaith byd-eang sydd yn gweithio i ddileu arfau niwclear

Mae Pwyllgor Llywio'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear (NFLA) wedi cyhoeddi dogfen wybodaeth ar gyfer yr holl gynghorau sy'n aelodau o'r enw Dileu Arfau Niwclear: Cyfleoedd Presennol a Thueddiadau yn y Dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn cynghori awdurdodau lleol ar yr hyn y gallant ei wneud i gefnogi ymdrechion i sicrhau byd di-niwclear. Anogir awdurdodau lleol i gymeradwyo datganiad Dileu 2000 ynghyd â Phenderfyniad Awdurdodau Lleol Dileu 2000 Prydain.

**WEITHREDU** *Mae'r ddogfen ar gael gan Liz Westmoreland, Uned Heddwch a Chynllunio Argyfwng Cyngor Dinas Leeds, 4ydd Llawr, Neuadd y Ddinas, Leeds LS1 1UR.*

*Cysylltwch â'ch cynghorydd lleol a gofynnwch iddo/iddi gefnogi'r syniad yn eu hawdurdod unedol. Mae mwy o Ardystiadau Dinasyddion ar gael i unigolion a mudiadau eraill – cysylltwch â George Crabb (01446) 774452.*

## Casnewydd Oleuedig

Mae ymgyrchu a phwyso dwys gan weithredwyr lleol yng Nghasnewydd a'r cylch wedi dwyn ffrwyth y gwanwyn yma: Bwrdeistref Casnewydd yw'r 21ain awdurdod unedol i ymuno â Fforwm Cymru Ddi-niwclear. Cytunodd y Bwrdeistref hefyd i ymuno â mudiad yr Ardaloedd Di-niwclear Prydeinig. Mae'r mudiadau hyn yn meithrin cydweithrediad rhwng aelod-awdurdodau, yn ceisio gwneud y diwydiant niwclear yn fwy atebol ac amddiffyn y cyhoedd rhag y peryglon niwclear sy'n cynyddu beunydd. Penfro yw'r unig awdurdod Cymreig sy'n dal heb ymuno â'r mudiadau hyn. Dyfed oedd y cyngor cyntaf i arwyddo'r Datganiad o blaid Cymru Ddi-niwclear ym 1981.

**WEITHREDU** *Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno ag ymgyrch yn yr haf i bwyso ar Gyngor Sir Benfro i ymuno â'r mudiadau di-niwclear, cysylltwch â Ray Davies, os gwelwch yn dda (gweler y rhestr gysylltiadau).*

## Tomen Wastraff Niwclear yn Ne Ddwyrain Lloegr

Wedi ffwndro NIREX a'r domen wastraff niwclear arfaethedig yn Cumbria, datgelwyd gan CND Prydeinig bod tomen ymbelydrol yn Sefydliad Arfau Atomig Aldermaston yn cynnwys 4,500 tunnell fetrig o wastraff niwclear. Bydd hen offer ac adeiladau ar y safle sy'n cael ei ddadgomisiynu yn dyblu hynny. Mae adroddiad CND, sy'n seiliedig ar wybodaeth gan Adran yr Amgylchedd a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch, yn dod i'r casgliad mai'r unig ateb yw atal cynhyrchu ergydion niwclear ar unwaith.

**WEITHREDU** *Mae Adroddiad CND ar gael gan CND Prydeinig (0171) 700 2393.*

## Yr UE yn pleidleisio i ddileu arfau niwclear

Ym mis Mawrth, pasiodd y Senedd Ewropeaidd gynnig ar Atal Lledaeniad Niwclear a oedd yn cynnwys yr ymadrodd "galw ar aelod-wladwriaethau i gefnogi cychwyn trafodaethau ym 1997 a fydd yn arwain at gytundeb i ddileu arfau niwclear". Pwysodd CND Cymru ar holl ASEau Cymru ynglŷn â hyn a deallwn i bob un o'r ASEau hynny gefnogi'r cynnig.

## Cyflwyno gwobr heddwch ryngwladol i ddiarfogwyr Ploughshares

Cynrychiolydd ein Cadeirydd, David Morris ASE, CND Cymru ar achlysur cyflwyno Gwobr Heddwch Sean MacBride eleni i'r pedwar diarfogydd "Hadau Gobaith" Prydeinig. Fe'u harestiwyd a'u carcharu am bum mis ym 1996 ar ôl gweithredu'n uniongyrchol yn erbyn awyren filwrol Hawk oedd ar fin cael eu hallforio i Indonesia. Ar ôl achos llys cyffrous yn Lerpwl a wnaeth lawer iawn i alw sylw pobl at y rhan a chwaraeir gan wledydd eraill yng ngormes Indonesia a llofruddio pobl Dwyrain Timor, rhyddhawyd y menywod. Yr oedd un o enillwyr Gwobr Heddwch Nobel, José Ramos Horta, o Ddwyrain Timor, yn bresennol yn y seremoni. Enwyd Gwobr Heddwch Sean MacBride ar ôl yr enillydd Nobel a chyn-Lywydd y Biwro Heddwch Rhyngwladol ac fe'i rhoddir bob blwyddyn i berson neu grŵp sydd wedi gweithredu mewn modd eithriadol dros heddwch a/neu hawliau dynol.

## Wps! – cynnydd arall yng nghost Trident

Er nad yw'r gwaith adeiladu ar yr iard drwsio Trident yn Davenport (Plymouth) wedi dechrau eto, mae'r gost eisoes £113 miliwn yn uwch na'r amcangyfrif. Ymddengys i'r amcangyfrif gwreiddiol anghofio cynnwys cyflenwadau, darnau sbâr a diogelwch.

## Watchett, Gwlad yr Haf yn ymgeisio am ei thaflegryn ei hun

Nid jôc mo hyn. Mae Cyngor y Dref yn Watchett – mangre hyfryd ar lannau Môr Hafren lle cyfansoddodd Wordsworth a Coleridge rai o'r Lyrical Ballads tua diwedd y 18fed ganrif, yn eiddgar iawn i ddenu twristiaid. Eu cynllun diweddaraf yw prynu hen daflegryn Polaris a'i osod ar y prom. Mae hyn wedi gorfodi llawer ohonom i ganslo gwyliau eleni yng Ngwlad yr Haf.

## Bom-Amser y Milflwyddiant – gair o gysur...

Mae arbenigwyr cyfrifiadur eisoes yn ymbaratoi am y foment pan fydd yn rhaid i'w peiriannau newid eu dyddiadau am hanner nos nos Galan 2000. Mae rhai'n ofni y collir y wybodaeth ar eu peiriannau am byth. Mae llyfr newydd, The Millennium Timebomb, gan Simon Reeve a Colin McGhee (Vision Paperbacks £8.99) yn proffwydo bryd hynny y bydd:

- systemau taflegrau'r UD yn methu;
- yr un peth yn digwydd i systemau milwrol Prydain, hyd yn oed ar ôl gwario £100 miliwn ar ddiogelu'r rhaglenni;
- bydd awyrennau'n cwympo i'r ddaear wrth i systemau lleoli daearen fynd o le;
- bydd gorsafoedd ynni niwclear yn drysu mewn modd trychinebus.

Mae'r llyfr yn darogan hefyd, os llwyddwn i oroesi hyn oll, y bydd tranc systemau technoleg gwybodaeth ledled y byd yn awrwain at ddirwasgiad byd-eang. Tybed a oes rhyw fath o gyfiawnder naturiol yn hyn oll!

## Cwba a Chernobyl

Er 1986 mae 15,000 o blant o ardal Chernobyl yn Wcraen wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty/Ysgol Tarara, Dwyrain Hafana, Cwba, yn rhad ac am ddim. Rhoddir triniaeth yn amrywio o gwnslera ar straen i drawsblannu iau i blant o bob oed. Mae Cwba hefyd yn darparu gofal iechyd ar gyfer rhai mewn angen mewn llawer rhan o'r byd er gwaethaf y diffyg cyflenwadau a achosir gan warchae'r UD.

**WEITHREDU** *Os carech gyfrannu neu gael gwybod mwy am y cynlluniau hyn, cysylltwch â Sybil Newton, os gwelwch yn dda, ar (0181) 660 3007*

## Aberystwyth a Chernobyl

Dygir 1,500 o blant i Gymru o Belarus eleni fel rhan o Brosiect Plant Chernobyl. Byddant yn aros mewn gwahanol lefydd ledled Cymru i gael gwyliau mewn amgylchedd cymharol anllygredig. Os carech wybod sut y gallech helpu, cysylltwch ag Olwen Davies (gweler y rhestr gysylltiadau), Louis Friedman (01559) 370211 neu Myrla Eastland (01222) 864793.

## Atal Confoi niwclear ar y ffin â'r Alban

Restiwyd naw ymgyrchydd gwrth-niwclear yn chwifio baneri Albanaidd ar y ffin rhwng yr Alban a Lloegr yn

*Parhad ar dud. 6*



ddiweddar. Roeddynt wedi atal y confoi yn cludo ergydion i Trident ar ei ffordd o Aldermaston i Coulport. Cyhuddwyd y naw o dramgwyddau trefn cyhoeddus ar ôl atal y confoi â baneri a drymiau. Cadwynodd pymtheg ar hugain o brotestwyr eu hunain i'r cerbydau.

Meddai John Ainslie o CND Yr Alban: "Rydym yn sefyll ar safle Wal Hadrian i gadw Trident allan o'r Alban. Daethom yma i ddangos na fydd yr Alban byth yn fodlon derbyn yr arfau dinistr torfol barbaraidd ac anghyfreithlon hyn".

Mae rhai'n tybio a fyddai Senedd Albanaidd yn gwahardd Trident am resymau amgylcheddol. Os felly, buom yn ceisio dyfalu lle yn Lloegr y byddai etholwyr yn hapus i weld Trident yn cael cartref. Pont Westminster?

### Arian papur "ymbelydrol" a sudd cwrens duon

Yn Nhwrci, dygodd lladron arian o nifer o fanciau o gwmpas Ankera drwy ddarbwyllo banciau bod eu harian yn ymbelydrol. Aeth y tri dyn i mewn i'r banciau yn gwisgo siwtiau gwarchodol, gan hysbysu'r staff, oherwydd bod ymbelydredd wedi dianc yn y Bathdy Cenedlaethol, bod pob arian papur yn cael ei alw yn ôl. Eglurodd un rheolydd y dywedwyd wrthynt pe na chytunent, byddai staff y banc i gyd yn troi'n las, felly dyma roi popeth yn y banc iddynt. Chwistrellodd y lladron y staff â "hylif dadlygru" – darganfuwyd wedyn mai sudd cwrens duon ydoedd. Meddai swyddog y llywodraeth: "Nid ydym yn, nac erioed wedi, defnyddio ynni niwclear i wneud arian papur."

### Cyfeireb Ewratom 96/29

Mae'r gyfeireb newydd hon, a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, sydd bellach yn cael ei ystyried gan y Senedd Ewropeaidd, yn caniatàu i bob gwlad oruchwylio eu terfynau gollwng deunydd ymbelydrol ei hun o 2000 ymlaen. Gall unrhyw un bellach ollwng deunydd ymbelydrol (o fewn terfynau penodol) heb orfod rhoi rhybudd, ac ymddengys y gellir ailgylchu gwastraff niwclear yn nwyddau i'r cartref. Gallai hyn arwain hefyd at sefydlu rhai gwladwriaethau fel canolfannau cael gwared o wastraff ymbelydrol i'r Undeb Ewropeaidd.

Mwy o wybodaeth: Chris Busby, Ymgyrch Ymbelydredd Lefel-Isel (01970) 611226

# Materion Ewropeaidd a Thrafodaethau ar y Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear

Ym Mhwyllgor Paratoi'r Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear (NPT) yn Efrog Newydd, galwodd Seland Newydd a Chanada ar i Ffrainc a Phrydain "ymrwymo ar unwaith i beidio â chynyddu eu cyflenwadau (niwclear) a chymryd rhan mewn trafodaethau ar ddiarfogi niwclear ymhlith y Pum Gwladwriaeth Arfau Niwclear ochr yn ochr â START III".

## Pryderon Affrica am ehangu NATO

Mynegodd De Affrica bryder difrifol ynghylch ehangu NATO. Byddai ehangu o'r fath, meddai, "yn cynyddu'r nifer o wladwriaeth heb arfau niwclear a fyddai'n cymryd rhan mewn hyfforddiant, cynllunio a phenderfyniadau niwclear ac sydd ag elfen o fraw-ataliaeth niwclear yn eu polisÿau". Dadleuai cynrychiolwyr Prydain yn y cyfarfod fod y mater yn amherthnasol i'r NPT ac roedd yn ddig pan awgrymwyd y gallai trefniadau rhannu arfau niwclear NATO fod yn tramgwyddo erthyglau 1 a 2 o'r cytundeb.

## CND yn cwrdd â Syr Michael Weston

Cyfarfu Syr Michael Weston, negydydd Prydain yn y trafodaethau, â chynrychiolwyr o'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear.

Nododd Syr Michael:

- fod Prydain yn anfodlon trafod cytundeb â therfynau amser er dileu arfau niwclear gan y byddai hynny'n anymarferol ac yn afrealistig;
- fod y datganiad a wnaed gan Lyngeswyr a Chadfridogion y llynedd yn galw am ddiarfogi niwclear yn ddiddorol ond heb sylwedd dwfn;
- fod arfau niwclear yn bwysig er mwyn cadw lle Prydain wrth y prif fwrdd a dylanwadu ar y ddadl;
- y byddai Prydain yn anhapus ynglŷn â chynnwys Tritiwm (a ddefnyddir i gynyddu pŵer ffrwydrol) mewn unrhyw drafodaeth ynglyn â chytundeb i atal cynhyrchu defnyddiau niwclear ymholltol;
- y dylid gadael i'r UD a Rwsia gytuno ar fesurau diarfogi niwclear cyn bod gwladwriaeth arfau niwclear eraill, llai o faint yn trafod toriadau;
- na roddwyd ystyriaeth ddifrifol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i arf yn lle Trident neu i bolisi ar gael gwared o greiddiau adweithyddion a thanwydd hesb, yn sgîl gwrthod caniatâd i NIREX greu tomen wastraff niwclear danddaearol yn Sellafield
- y byddai'r Ysgrifenyddion Parhaol yn y llywodraeth Brydeinig yn barod i weithredu unrhyw newidiadau mewn polisi o ddiwrnod cyntaf llywodraeth newydd.

Yn y rhan o'r cyfarfod a fu'n trafod Ardaloedd Di-Niwclear, cyflwynodd Belarws ei chynigion am ofod di-niwclear yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop. Gwrthododd Gwlad Pwyl y syniad o greu rhanbarth o'r fath "cyn datrys problem ehangu NATO".

### WEITHREDU

*Mae adroddiad gan CND, "The UK's Record on Nuclear Disarmament", a gafodd ei gylchredeg yn eang yng nghyfarfod y NPT, ar gael oddi wrth CND Prydeinig (0171) 7002393.*

*Mae CND Cymru yn rhan o rwydwaith a sefydlwyd gan y Prosiect ar Atal Lledaeniad Niwclear Ewropeaidd (PENN). Sefydlwyd PENN i hyrwyddo diarfogi niwclear yn Ewrop; lledaenu a dadansoddi gwybodaeth ar y materion hyn, a chreu rhwystrau gwleidyddol i unrhyw ddatblygiadau a allai arwain at Ewrop niwclear-arfog. Fe'i cefnogir gan Sefydliad W. Alton Jones. Mae'r Prosiect yn cyhoeddi llythyr newyddion defnyddiol a diddorol – ar gael am ddim oddi wrth BITS, Rykestrase 13, 10405 Berlin, Yr Almaen.*



## Cymry gwrth-filitaraidd yn dal y fyddin Brydeinig yn ddiarwybod ar Epynt



Ar Ebrill 5ed, daliwyd y fyddin yn ddiarwybod gan grŵp o Gymdeithas y Cymod a gynhaliodd ddau wasanaeth ar dir dan reolaeth y fyddin ar Epynt. Pwrcaswyd yr ardal fryniog hardd hon ar gyrion Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn orfodol gan y Weinyddiaeth Ryfel ym 1941 ar gyfer hyfforddi milwrol. Collodd cymuned o fwy na 40 o deuluoedd eu cartrefi, ond credent y caent brynu eu ffermydd yn ôl rhyw ddydd a dychwelyd yno. Yn lle hynny, mae'r meysydd tanio fel pe baent yn ehangu beunydd, a gwariwyd £7 miliwn yn ddiweddar ar adeiladu pentref ffug lle bydd milwyr yn chwarae chwaraeon rhyfel.

Cynhaliwyd gwasanaeth crefyddol yn adfeilion Capel Babell. Cawsai'r capel Methodistaidd hwn ei ddinistrio gan y fyddin a dim ond waliau isel a mynwent sydd ar ôl bellach. Codwyd hysbysfwrdd yn y fynwent yn ddiweddar gan yr awdurdodau milwrol yn ceisio esgusodi'r driniaeth a gafodd trigolion Epynt. Dywed yr hysbysiad milwrol mai "ar fryniau Epynt yr enillwyd Brwydr Ynysoedd Falkland". Cyfiawnhawyd y Frwydr honno yn rhannol gan Margaret Thatcher fel brwydr dros hawliau'r Ynyswyr i "hunan-benderfyniad". Doedd y Fyddin Brydeinig yn malio dim am hunan-benderfyniad cymunedau Epynt; gosodasant rifau yn lle enwau'r ffermydd a dwyn ymaith hawl pobl leol i deithio'n rhydd ar ffyrdd yn y cylch. Mae cymunedau lleol wedi gorfod goddef golygefeydd a thwrw tebyg i fod yn byw mewn tiriogaeth dan sawdl gelyn.

Wedi'r gwasanaeth yn y capel, dilynodd rhyw 30 o bobl, yn cynnwys sawl gweinidog ac offeiriad, groes bren i'r capel ffug. Roedd y pentref ffug yn cael ei ddefnyddio gan filwyr a oedd yn cuddio yn y tai yn cario arfau otomatig. Er gwaethaf rhybuddion gan heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn i beidio â mynd dim pellach, yn ei blaen yr aeth y bererindod. Yn y capel ffug yn y pentref, canodd y gwrthdystwyr ganeuon, gweddïo, a thystiolaethu i ddioddefaint y miliynau o bobl ddiniwed a laddwyd mewn rhyfeloedd y ganrif hon. Ysgrifennwyd y niferoedd a laddwyd mewn rhyfeloedd ym mhedwar ban y byd ar y ffug gerrig beddau.

Ni allai milwyr arfog yn y pentref ateb y cwestiynau parthed pwy yr oeddynt yn cael eu hyfforddi i'w lladd. Ymadawodd y gwrthdystwyr ar ôl ei gwneud hi'n glir nad yw hyfforddi pobl i ladd ar fryniau Cymru, neu yn unlle arall, yn foesol dderbyniol.

Recordiwyd yr holl ddigwyddiad gan y BBC a'i ddarlledu ddwywaith y diwrnod canlynol ar Radio Cymru.

***Rod a Jill Stallard***
***(Lluniau gan Guto ap Gwynfor)***



# Llyn Trawsfynydd – peidiwch â gadael y plant ar ei gyfyl

Gofynnwyd i'r Bwrdd Diogelwch Ymbelydrol (NRPB) yn ddiweddar i asesu a fyddai pobl a fyddai'n adeiladu, yn gweithredu neu'n defnyddio cyfleusterau hamdden ar Lyn Trawfynydd yn dioddef oddi wrth ymbelydredd. Y casgliad oedd nad oedd Llyn Trawsfynydd yn cynnwys unrhyw ymbelydredd o lefel annerbyniol i'r cyhoedd. Yn ôl rheolydd yr orsaf, "Does dim peryglon yn Llyn Trawsfynydd".

## Gollwng mwy i'r llyn

Defnyddiwyd y llyn er y 1960au fel cyflenwad dŵr i oeri dau adweithydd niwclear yr orsaf, sydd yn cael eu dadgomisiynu ar hyn o bryd. Ar yr un pryd, gollyngir mwy nag erioed o Americiwm 241 (sydd â hanner oes o 458 o flynyddoedd) i'r llyn eleni. Yn ystod y 30 mlynedd nesaf, wrth i'r llwythi o Blwtoniwm 241 a ollyngwyd i'r llyn er 1985 ddirywio, bydd lefelau Americwm 241 yn cynyddu'r ddramatig.

## Y gwirionedd

Mewn adroddiad diweddar a edrychai ar ffigurau'r NRPB, dywedodd Cyngrair Wrth-Niwclear Cymru (CWNC): "Yn sgil cau'r orsaf, gollyngir lefelau uchel iawn o caesiwm 137 ir llyn gan roi bron dwbl y ddôs 'arferol' i bysgotwyr. Yn lle ailadrodd yr arolwg mwyaf trwydl o laid ar wely'r llyn a wnaed gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan Canolog ym 1986 a ddangos lawer mwy o ymbelydredd, i lawr i ddyfnder o ryw 30cm, na'r disgwyl, cymerodd y NRPB samplau cyfyngedig hyd at ddyfnder o 22 cm. Mae hyn yn cadarnhau bod yr ymbelydredd wedi suddo i mewn i'r llaid a bod y cwbl wedi llygru."

Pen gogledd-ddwyreiniol y llyn, y byddir yn ei ddefnyddio ar gyfer y "gweithgareddau hamdden" yw'r rhan fwyaf llygredig o'r llyn yn ôl pob tebyg. Dyna'r rhan a gyffrowyd leiaf gan nentydd yn dod i mewn i'r llyn. Awgrymwyd bod y Caesiwm 137 yn toddi yn y dŵr ac mai dyna pam nad yw Magnox Electric yn cynnwys nofio yn y rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o'r llyn. Os anadlir ef i mewn, gall miliynfed rhan o gram o Blwtoniwm achosi cancr yr ysgyfaint. Mae CWNC yn galw am atal gollwng deunydd ymbelydrol i mewn i'r llyn ar unwaith, ac adfer y llyn i'w gyflwr glân gwreiddiol.

**# WEITHREDU**

*Os ydych am benderfynu drosoch eich hun cyn mynd i hwylio ar fatres awyr neu gwch neu eistedd ar lan y llyn yn anadlu'r awyr tra bod eich plant yn padlo wrth y lan, cysylltwch â CWNC, Blwch Post 1, Llandrindod, Powys LD1 5AA. Mae adroddiad yr NRPB sef NRPB M755 ar gael am ddim oddi wrth y Swyddfa Gyhoeddiadau, NRPB, Chilton, Didcot, Swydd Rydychen OX11 0RQ.*

# Hedfanwch eich barcud!

## Penwythnos Gweithredu yn erbyn awyrennau milwrol sy'n hedfan yn isel: Gorffennaf 19-20 1997

Mae CND Cymru a Rhyddid yr Awyr yn cyd-hyrwyddo penwythnos o weithredu yn erbyn hyfforddi pobl i hedfan jetiau milwrol lefel-isel – a bydd yn gyfle i bawb dynnu'r barcud o'r cwpwrdd, datod y clymau a mwynhau diwrnod yn yr awyr iawch.

Mehefin/Gorffennaf yw ADEG GWEITHREDU hefyd o ran ysgrifennu at eich AS newydd yn gofyn am ddatganiad ar y broblem a beth mae ef/hi yn bwriadu ei wneud.

Mae hedfan isel gan awyrennau milwrol yn broblem ryngwladol, yn broblem Ewropeaidd ac yn broblem genedlaethol, felly bwriadwn edrych am ateb rhyngwladol. Mae'r weithred yn cynnwys Cymru, yr Alban, Lloegr ac Ynys Manaw. Rydym yn cysylltu â grwpiau ac unigolion eraill ledled gwledydd Prydain felly os oes gennych unrhyw ffrindiau mewn mannau pellennig sy'n dioddef oherwydd jetiau milwrol, rhowch wybod iddyn nhw am y Penwythnos Gweithredu, da chi.


Gan mai penwythnos GWEITHREDU yw hwn, mae angen rhoi gwybod i'r wasg leol a'r radio beth sy'n digwydd a felly byddai tipyn o gyhoeddusrwydd o flaen llaw yn eich ardal chi o gymorth. Chi fydd yn gyfrifol am drefnu eich gweithred eich hun a rhoi cyhoeddusrwydd iddi:

### Amcanion

- Dathlu rhyddid yr awyr (dyw'r jetiau ddim yn hedfan yn isel ar benwythnosau)
- Gofyn i ASau ac ASEau* lleol am ddatganiad (*gan fod gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ryddid yr awyr dros Brydain, daw llawer o jetiau NATO Ewropeaidd yma am yr hyfforddi milwrol tactegol na chânt ei wneud yn eu gwledydd eu hunan)
- Gwneud pobl yn fwy ymwybodol o niwed/peryglon/problemau/cost hyfforddiant hedfan milwrol lefel-isel
- Galw am benderfyniad gan y llywodraeth Brydeinig i roi'r gorau i hedfan milwrol o dan 1000 troedfedd ar gyflymdra o fwy na 420 not yng ngofod awyr gwledydd Prydain a gwledydd tramor.

### Rhai o'r problemau a'r dadleuon

- Mae sŵn yn peri straen ac mae ffrwydradau sydyn o sŵn lefel-uchel, amledd-uchel yn achosi straen corfforol eithriadol gan niweidio'r system imiwn, codi pwysedd gwaed ac achosi trawma sy'n effeithio ar y bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau. Mae gennym brawf gwyddonol bellach y gall hyfforddi gydag awyrennau jet milwrol niweidio clyw plant ifanc iawn yn barhaol.
- Prydain yw'r unig wladwriaeth yn Ewrop sy'n caniatàu hyfforddi mewn jetiau milwrol sy'n hedfan ar uchder o 100 troedfedd uwch law cymunedau cefn gwlad. Mae jetiau milwrol o awyrluoedd o bedwar ban y byd yn dod yma i ymarfer.
- Nid oes cyfreithiau rhyngwladol, gwladol neu awdurdod lleol i'n diogelu.
- Cost. Anhygoel. Fe wyddoch chi gost prynu, rhedeg a chynnal a chadw car – Beth am jet? Mae gan Brydain ryw 1,500 o awyrennau milwrol ar hyn o bryd, bob un yn costio rhwng £250,000 a £25 miliwn yr un. Bydd yr awyrennau ymladd Ewro newydd yn costio £60 miliwn yr un am 232 ohonyn nhw... £60,000,000 x 232 =?!! Amcangyfrifir ei bod yn costio £10,000 yr awr i redeg a chynnal a chadw un o'r rhain. Hedfanir rhyw 120,000 cyrch y flwyddyn dros Brydain a gwneir 60% o'n hyfforddi mewn hedfan isel iawn dros Ganada... felly, hedfanwch eich jet dros Fôr Iwerydd cyn cychwyn... a ni sy'n talu am hyn oll.




- Rhoes Awyrlu'r UD y gorau i'r math hwn o hyfforddi ar ôl rhyfel y Gwlff am ei bod hi'n rhy beryglus i'r awyrennau ar lefelau isel. Eu hunig ddefnydd rhyngwladol bellach yw yn erbyn targedau sifil, heb eu hamddiffyn yng ngwledydd y Trydydd Bryd. Fel Dwyrain Timor.
- Ddim yn ein gardd gefn ni? Pam ddylen ni ddanfon y jetiau i wledydd tramor – ar hyn o bryd, poblogaeth Innu Labrador, Canada sy'n dioddef 60% o hyfforddiant jet lefel-isel yr Awyrlu Brenhinol (h.y. 100 troedfedd uwch lefel y ddaear). Maent yn dweud bod mŏr esgyrn y caribŵ yn cael ei newid gan y straen a bod y diwylliant Innu dan fygythiad. Hedfan isel milwrol yw un o'r prif ffactorau.
- Llygredd. Mae cerosîn yn llosgi gan adael parddu ac amrywiaeth o bethau anhyfryd eraill. Byddwn yn bwyta'r rhain ar ein llysiau. Caiff tanwydd heb ei losgi ei chwistrellu i'r awyr hefyd yn ystod ymarferion cyflym iawn.
- Ni wnaiff y Weinyddiaeth Amddiffyn gadarnhau na gwadu bod y jetiau'n cario bomiau ac arfau niwclear byw ar adegau.
- Damweiniau. Bu llawer o ddamweiniau gyda jetiau dros wledydd Prydain yn y blynyddoedd diwethaf. Yn y 1980au cynnar, trawodd jet hyfforddi milwrol ysgol yn yr Eidal gan ladd ac anafu disgyblion. Ym 1989 bu farw mwy na 30 o bobl mewn dwy ddamwain jet drychinebus yn yr Almaen. Y flwyddyn ganlynol, gwaharddodd yr Almaen awyrennau milwrol rhag hyfforddi o dan uchder o 1,000 troedfedd. Am faint yn hwy ydyn ni am aro?

### Cynllun gweithredu


Dewiswch rai o'r syniadau isod, neu'r cwbl – mae llythyr at eich AS neu'ch ASE yn fan cychwyn gwych!

- Dechreuwch ddeiseb a gosod copÿau mewn mannau cyhoeddu. Mae deiseb yn arf gwerthfawr i AS fedru ei ddefnyddio i ddangos mor gryf yw teimladau'r etholwyr. Yn yr wythnosau cyn y Penwythnos Gweithredu, dechreuwch ddeiseb yn eich ardal eich hun. Wedi'r penwythnos Gweithredu, danfonwch honno at eich A.
- Gofynnwch i'ch AS neu'ch ASE lleol i wneud datganiad ar hedfan isel cyn y penwythnos gweithredu a gofynnwch iddo/iddi ddod â'ch pryderon i sylw'r Gwir Anhr. George Robertson A, y Gweinidog Amddiffyn newydd, neu godi'r mater yn y Senedd Ewropeaidd.
- Benthycwch gamera fideo, cadwch lygad ar y wasg am hysbysiad o ymarferion yn eich ardal chi ac ewch ati gyda ffrindiau i ffilmio'r jetiau'n hedfan yn isel.
- Dewiswch safle addas i hedfan barcud* neu dewch i'r safle

Parhad ar dud. 9

gweithredu cenedlaethol. *DS Os dewiswch eich safle eich hun, gwnewch yn siwr nad oes gwifrau uwch ben, peilonau, coed ac ati, a hysbyswch glybiau hedfan lleol a'r awdurdodau hedfan sifil. Y safleoedd gorau yw rhostir agored neu ar ben bryn. Ni ddylid hedfan y barcud yn uwch na 60 metr (200 troedfedd) neu 30 metr (100 troedfedd) mewn gofod awyr tan reolaeth o gwmpas maes awyr neu faes glanio. Gall fod rheolaethau hofrenyddion achub ar rai traethau.

- Cysylltwch â'ch papur-newydd lleol a'ch radio lleol a rhowch gopi o'r erthygl hon iddyn nhw ynghyd â datganiad eich AS a'ch ASE a'ch sylwadau eich hun.



**SADWRN 19 GORFFENNAF:** Gosodwch stondin i'ch deiseb yn y stryd fawr neu sgwâr y dref. Tynnwch eich barcud o'r cwpwrdd, dywedwch wrth ffrindiau a siaradwch â phobl sy'n cerdded heibio. Balwns heliwm arian wedi eu haddurno'n briodol, siwtiau gwrth-belydrol efallai, dillad lliwgar, ac ati.

**SUL 20 GORFFENNAF:** 12.00 hanner dydd, Traeth Pen-bre, A484 o Lanelli.

Dilynwch yr arwyddion i Barc Gwlad Pen-bre, a gyrru drwyddo i'r ciosg ger glan y môr. Byddwn yn cwrdd ar y traeth o flaen y prif faes parcio.

Ewch â phicnic, mwynhewch a dathlwch.

*Am wybodaeth bellach: Y De: Michael Hayes 01792 367807; y Gorllewin: Paul Hawkes 01239 614856; Canolbarth/Gogledd: Gillian Metcalf 01570 493576.*

# 75 Mlynedd o Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru

Ym 1922, y Parch. Gwilym Davies oedd yn gyfrifol am Neges Heddwch ac Ewyllys Da gyntaf Urdd Gobaith Cymru. Gweithiodd yn ddiflino dros Heddwch a Chydweithrediad rhwng y cenhedloedd ac, ar ddiwedd y rhyfel ym 1945, helpodd i sefydlu'r Cenhedloedd Unedig ac Unesco. Pan fu farw Gwilym Davies ym 1955, etifeddodd yr Urdd y cyfrifoldeb am y nege.

Bob blwyddyn er 1924 mae'r BBC wedi darlledu'r Neges ar y 18fed o Fai, a adwaenir ledled y byd yn awr fel "Dydd Ewyllys Da".

Dyma neges 1997:

"Fe'ch gwahoddwn chi, ieuenctid Cymru, i ddathlu 75 mlwyddiant y "Neges Heddwch ac Ewyllys Da".

Y Parchedig Gwilym Davies, un o sylfaenwyr Cynghrair y Cenhedloedd, ddanfonodd y neges gyntaf. Ei ddymuniad ef oedd cydweithrediad rhwng y cenhedloedd. Ein dyletswydd ni fel ieuenctid y byd yw parhau â'i weledigaeth ef o heddwch a hapusrwydd.

Cofiwn hefyd benblwydd Urdd Gobaith Cymru, mudiad ieuenctid ein gwlad. Ei arwyddair yw "Byddaf ffyddlon i Gymru, i'm cyd-ddyn ac i Grist". Nod yr Urdd yw diogelu a meithrin yr iaith Gymraeg ac annog pobl ifanc i barchu eu hiaith a'u diwylliant. Fel mudiad dyngarol, mae'r Urdd yn gweithio dros heddwch ac ewyllys da i'r holl ddynolryw ac mae'n pwysleisio bod cariad at wledydd eraill mor bwysig â charu Cymru.

Er sefydlu'r Neges a'r Urdd 75 mlynedd yn ôl, mae'r byd wedi gweld anrhaith rhyfel, newyn a brawychiaeth. Wnewch chi, ieuenctid y byd, gyduno â ni fel un llais i sicrhau dyfodol heddychlon i'r byd ac edrych ymlaen â gobaith at yr 21ain ganrif?"

Gellir cysylltu ag Urdd Gobaith Cymru yn: Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth (01970) 623744.

# Llofruddiaeth heb dyst

Ellwch chi fyth brofi rhai pethau. Er enghraifft ni ellwch fyth brofi yr achosir cancr ysgyfaint smociwr neilltuol gan sigarennau. Gallai fod wedi ei achosi gan nwy radon naturiol neu belydrau cosmig. Wedi'r cwbl, mae rhai nad ydyn nhw'n smygu yn cael cancr yr ysgyfaint hefyd. Fe guddiodd y cwmnïau tybaco y tu ôl i'r ansicrwydd hwnnw am flynyddoedd lawer.

Mae llygredd ymbelydrol o waith dyn yn debyg. Ni allwn byth brofi yr achosir cancr neilltuol gan ffynhonnell ymbelydredd neilltuol oherwydd, fel gyda mwg sigarÕt, gwneir y niwed yn dawel, yn ddi-boen, y tu fewn i'n cyrff ar raddfa is-atomig. Does dim tyst i hyn.

Er 1974 mae cyfraddau cancr yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n gyson. Mae cyfraddau cancr plentyndod yng Nghymru wedi cynyddu i bum gwaith cyfradd East Anglia. Yng Nghymru, ceir y cyfraddau uchaf yn ardaloedd arfordirol y gogledd a'r gorllewin. Gwelir cynnydd tebyg mewn cancr a namau genetig yn Dundalk, Iwerddon. Un peth sydd yn gyffredin i'r ardaloedd hyn: maent ar lannau Môr Iwerddon, ger Sellafield.

Canolfan ailbrosesu tanwydd niwclear fawr yw Sellafield (Windscale gynt) yn Cumbria, ar lannau Môr Iwerddon, ychydig i'r gogledd o Gymru. Mae'n defnyddio Môr Iwerddon fel tomen wastraff niwclear.

Cafwyd bod 14 gwaith gymaint o ymbelydredd mewn pysgod cregyn o Fôr Iwerddon â'r hyn a ystyria'r Undeb Ewropeaidd yn lefel beryglus mewn bwydydd. Yn benodol, mesurodd Gweinyddiaeth Amaeth Prydain 17,000 becqueral y cilogram o technetiwm 99 mewn pysgod cregyn o Fôr Iwerddon. Does dim amheuaeth na ddaeth y technetiwm o Sellafield. Yn y cyfamser, mae Sellafield wedi gwneud cais i'r llywodraeth Brydeinig am gael gollwng mwy fyth o ymbelydredd i'r môr. Mae hyn yn cynnwys cais am gael gollwng 574% yn fwy o tritiwm.

Mae faint o ddeunydd ymbelydrol a ollyngir o Sellafield a'r cyfraddau cancr ar lannau cyfagos Môr Iwerddon wedi bod yn cynyddu ers tro. Cafodd y dadleuon bod cysylltiad rhwng y ddau eu hwfftio gan yr asiantaethau diogelu rhag ymbelydredd yn union fel yr arferai'r cwmnïau tybaco wfftio'r cysylltiad rhwng eu cynnyrch hwy a chancr.

*Carole Woods, Seattle UDA*

*Lluniodd Carole Woods yr erthygl hon ar gyfer y Cylchgrawn Cymreig/ Americanaidd Ninnau. Mae hi wedi cefnogi CND Cymru ers amser maith; mae ei gŵr yn un o 'downwinders' Hanford a fu'n byw mewn ardal a lygrwyd yn ddifrifol gan ymbelydredd o Waith Hanford a gynhyrchodd y plwtoniwm ar gyfer y ffrwydrad prawf atomig cyntaf a bom Nagasaki. Gweithredai'r gwaith niwclear hwn drwy anwybyddu peryglon i iechyd a gollwng llwythi anferth o elfennau ymbelydrol i'r awyrgylch. Mae llywodraeth yr UD newydd gydnabod yr effeithiau catastroffig ar y boblogaeth leol a oedd yn byw yn llwybr y gwynt o'r gwaith.*

# Ewrop Niwclear?

Ar Fehefin 16eg a'r 17eg bydd Cynhadledd Ryng-Lywodraethol yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn cynnal uwch-gynhadledd i gytuno ar newidiadau i Gytundeb Maastricht. Mae Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sbaen, Gwlad Belg a Lwcsembwrg, gyda chefnogaeth yr Iseldiroedd a Phortwgal yn cynig cynllun tri-cham i sefydlu Undeb Milwrol Ewropeaidd.

Byddai gan yr Undeb arfaethedig hwn gymal cyd-amddiffyn a'r gallu i gymryd rhan mewn cyrchoedd "cadw'r heddwch" a diogelwch eraill, a byddai'n gam tuag at "amddiffyn cyffredin Ewropeaidd". Byddai'n cyfuno Undeb Gorllewin Ewrop (UGE) (piler Ewrpeaidd NATO a'i arfau niwclear) a'r Undeb Ewropeaidd ac o dan y cynnig hwn byddai unrhyw wledydd a fyddai am bara i fod yn niwtral yn rhydd i beidio â chymryd rhan mewn unrhyw gyrchoedd milwrol neu ddiogelwch yr UE. Mae'r grŵp yn awgrymu y dylid mabwysiadu'r trefniadau diogelwch newydd mewn dau gam; dim ond yn ddiweddarach y byddai UGE yn mynd yn gyfundren filwrol gwbl integreiddiedig yn cynnwys "polisi arfogaeth cyffredinol" a chymal cyd-ddiogelwch.

Mae Iwerddon wedi gwrthwynebu gosod amserlen glir ar gyfer gweithredu cynnig o'r fath, a theimla bod cwestiynau'n codi ynghylch niwtralaeth rhai gwledydd. Byddai cytundeb o'r fath yn dod i rym cyn gynted ag y cadarnheid yr hyn y cytunid arno yn yr uwch-gynhadledd gan seneddau (ac mewn rhai achosion, fel yn Iwerddon, drwy refferendwm) 15 gwladwriaeth yr UE.


***Paul Hawkes***

**WEITHREDU**
*Mae mwy o wybodaeth ar y mater hwn ar gael gan CND Cymru. Mae datganiad ar y cyd yn cael ei lunio gan CND Cymru ac CND Iwerddon.*


**Scientific and Cultural Approaches to Nuclear Risk**

**12th International Standing Conference on Low Level Radiation and Health**

**Speakers: Professor Lewis Wolpert** Chair of Public Understanding of Science
**Professor Bryn Bridges** Chair of Committee on Medical Aspects of Radiation in the Environment
**Professor J.-F. Veil** Epidemiologist of leukemia clusters near reprocessing plants
**Dr John Adams** Cultural risk theorist
**Dr Chris Busby** Nuclear speaker for the Green Party
**Dr Rachel Western** Nuclear speaker, Friends of the Earth
**Dr Helen Wallace** Nuclear speaker, Greenpeace
**Maurice Frenkel** Director, Freedom of Information Campaign
**Dr Alan Irwin** Author of 'Citizens Science'
**Dr Ian Welsh** Risk Society sociologist



Venue: **University of the West of England, Bristol**

Contact: **Paul Dorfman**
**University of the West of England**
**Faculty of the Built Environment**
**Frenchay Campus**
**Colharbour Lane**
**Bristol BS16 1QY**
0117 965 6261 ext.3372

Bristol 1997
**July 19/20th**


# Deiseb gan Fenywod y Byd i Lywodraethau'r Byd

Cylchredwyd y ddeiseb isod i fenywod ym mhedwar ban y byd. Fe'i cyfieithwyd i amryw ieithoedd – yn cynnwys y Gymraeg erbyn hyn. Y nod yw sicrhau cymaint o lofnodion ag sy'n bosib erbyn diwedd mis Awst. Cyflwynir y ddeiseb ar ddiwrnod agoriadol 52fed sesiwn Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Hydref 24ain.

Roedd CND Cymru yn falch i gymeradwyo'r ddeiseb hon yn gynharach eleni.

Danfonodd Cora Wei, o Peace Action USA a'r Biwro Heddwch Rhyngwladol, y neges hon gyda'r ddeiseb:

"Hanner canrif yn ôl, milwyr oedd dau-draean y dioddefwyr mewn rhyfel. Erbyn heddiw, dinasyddion cyffredin yw 90% o'r dioddefwyr, a'r mwyafrif o'r rheini yn wragedd a phlant. Ymdrechodd pobl yn erbyn annynoldeb caethwasaeth, trefedigaetholdeb, apartheid a llafur plant. Gyda'n gilydd, llwyddasom i ddadgyfreithloni'r sefydliadau hyn a heddiw, maent yn anghyfreithlon. Nid oes unrhyw reswm pam na allwn ddatrys anghydfod heb ddryllau a bomiau. Ond bydd hynny'n gofyn ymchwydd o farn boblogaidd, a chreu awyrgylch mewn cymdeithas sifil sy'n galw am barch i'n gilydd a diwylliant o heddwch."

**Menter NGO i ddathlu hanner can mlwyddiant sesiwn gyntaf y Comsiwn ar Statws Menywod**

**Deiseb gan Fenywod y Byd i Lywodraethau'r Byd**

**Yr ydym wedi ein brawychu gan y lefelau o drais a welwyd yn ystod y ganrif hon a'r ffaith mai menywod a phlant yw prif ddioddefwyr rhyfel a thlodi. Ar ran cymdeithas yn gyffredinol mynnwn ni, fenywod y byd, ddargyfeirio o leiaf bump y cant o wariant milwrol gwladol bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf i gynlluniau iechyd, addysg a chyflogaeth. Drwy wneud hynny, rhyddheid hanner biliwn o ddoleri y dydd ledled y byd i gynlluniau i wella safonau byw.**

**Mynnwn hefyd y dylai rhyfel, fel caethwasaeth, trefedigaetholdeb ac apartheid, gael ei ddadgyfreithloni fel ffordd o ymddwyn sy'n dderbyniol gan gymdeithasol, a bod llywodraethau a'r gymdeithas sifil yn datblygu gyda'i gilydd sefydliadau newydd nad ydynt yn troi at drais fel modd o ddatrys anghydfod.**

**Gyda'n gilydd, ymrwymwn ni, hanner poblogaeth y Byd, i ddefnyddio ein pŵer i sicrhau yr atebir y galw hwnnw, a fydd yn hyrwyddo heddwch a diogelwch rhyngwladol, drwy ddeddfu a gweithredu. Yr ydym yn benderfynol o gychwyn canrif newydd a fydd yn gwrthod rhyfel ac yn hyrwyddo lles y ddynoliaeth.**

**WEITHREDU**
*Gobeithiwn gasglu mwy na 1,000 o lofnodion o Gymru ar gyfer Cynulliad y CU. Copÿwch y testun hwn a'i arwyddo neu cysylltwch â Jill Stallard os carech ddeiseb A4. Bydd ar gael i'w arwyddo yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst hefyd. Os gwyddoch am unrhyw fudiadau menywod a allai gylchredeg y ddeiseb, cysylltwch â Jill, os gwelwch yn dda.*



# Atgofion WILPF am Fenywod Greenham cyn Greenham

**Annwyl Olygydd,**

**Roedd yn dda gennyf ddarllen yr erthygl ddiweddar yn Heddwch am y Daith Gerdded o Gymru i Greenham, a charwn ychwanegu fy atgofion innau sy'n mynd ychydig ymhellach yn ôl i wreiddiau'r Daith.**

**Yn gynnar ym 1981 roeddwn yng Ngweithgor Rhyngwladol Cynghrair Ryngwladol y Menywod dros Heddwch a Rhyddid (WILPF) yn Cartigny. Hwn oedd y Gweithgor mwyaf cofiadwy i mi fod ynddo, am ddau reswm: y seminar ddeuddydd ryfeddol ar y Dwyrain Canol dan arweiniad Isam Satawi, Palestiniad a lofruddiwyd yn ddiweddarach am goleddu heddwch, a'r Cadfridog Peled, ei gyfaill heddychol Israeli; ac yn ail, diwrnod cyfan o adroddiadau cyffrous gan gynrychiolwragedd o Ddenmarc, yr Iseldiroedd, yr Almaen a Ffrainc am Daith Heddwch y Menywod o Gopenhagen i Bari.**

**Roedd cynrychiolwragedd o bob adran Sgandinafaidd o WILPF wedi bod yno ar y cychwyn, ac wedi cerdded yr holl ffordd; disgrifiai eraill y baneri o gynfasau a blancedi yn crogi o ffenestri yn yr Iseldiroedd ar hyd y ffordd; roedd eraill eto, fel Yvonne See, Llywydd Adran Ffrainc, ymhlith y prif siaradwyr yn y rali derfynol anferth ym Mhari. Aeth y cyfarfod ymlaen i drafod i ble fyddai'r fenter hon, y dechreuwyd ei chynllunio yng Nghyngres 1980 WILPF yn New Haven, UDA, dan yr enw "Teithiau'r Seren" yn mynd nesaf. Roeddem wrth ein bodd bod y menywod a ymunodd yn y daith yn aelodau o lawer o grwpiau heddwch cyfandirol eraill hefyd, ond yn hynod falch mai ni oedd y cydgysylltwyr rhyngwladol na allai'r Daith fod wedi digwydd hebddom. Mae Jill Stallard yn cofio sut y deilliodd Taith Heddwch Menywod dros Heddwch ar y Ddaear o gyffro'r menywod Cymreig hynny am y Daith honno o Gopenhagen i Bari.**

**Yma yng Nghasnewydd croesawodd llawer o aelodau WILPF Daith Greenham 1981 yn Sgwâr John Frost ac yna yn Ffordd Erfon, a cherddodd dau aelod gyda hwy o Gasnewydd i Gaerwent.**

**Mae WILPF yn dal i fod yn falch i Greenham dyfu i fod yn fenter newydd a llawer ehangach ym Mhrydain ac i wersylloedd tebyg ddod i fod mewn llawer o wledydd eraill, gyda chanlyniadau tymor-hir nas cydnabyddwyd yn iawn tan nawr. Fodd bynnag, ychydig o aelodau sydd gan WILPF bellach, â'r rheini'n tueddu i fod yn hŷn, a byddem yn croesawu cymorth mwy gweithgar ac aelodaeth rhai o ddarllenwyr Heddwch a fyddai'n gwerthfawrogi'r cysylltiadau rhyngwladol a'r cydgysylltu y gall WILPF eu cynnig o hyd.**

*Yn gywir,*
*Ruth Osborne*
*Ysgrifennydd Cangen De Cymru WILPF, 10 Melbourne Way, Casnewydd NP9 3RE*

# Dyddiadau Dyddiadur

**Mehefin 13-15** Burg Schlaining, Awtria, Cynhadledd NGO ar Ewrop Ddi-Arfau Niwclear, dan nawdd y Biwro Heddwch Rhyngwladol. *Cysyllter ag INE, Gutenburg str. 31, 44139 Dortmund, Yr Almaen. Email: R.Braun@ping.de*

**Mehefin 13-15** Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston (0117) 909 9448

**Mehefin 13-15** Amsterdam – Yr Uwch-gynhadledd Amgen. *Cysyllter â: Clymblaid yr Iseldiroedd dros Ewrop Wahanol, d/o ASEED, Blwch Post 92066, 1090 AB Amsterdam, Yr Iseldiroedd*

**Mehefin 15** Amsterdam Atal Lledaenu ac Arfau Niwclear yr Ewrop. *Cysyllter ag: AMOK, Esddrnstraat 14, 3551 AJ Utrecht, Yr Iseldiroedd (tel 00 31 30 244 2122, ffacs 00 31 30 244 1783)*

**Mehefin 16** 10.30 am – 5.00 pm Y Deml Heddwch, Parc Cathay, Caerdydd. Cynhadledd undydd i godi ymwybyddiaeth am UNIFEM (Cronfa Ddatblygiad Menywod y Cenhedloedd Unedig) sy'n ceisio dod â llais a chydwybod menywod i'r Cenhedloedd Unedig. Siaradwyr yn cynnwys Eluned Morgan ASE, Margot Steinberg UNIFEM Efrog Newydd, a Thelma de Leeuw, UNIFEM Prydain. Croeso i bawb. *Manylion pellach gan Stephen Thomas (01222) 228549/395664 yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru*

**Mehefin 21** Cynhadledd Conscience(Yr Ymgyrch Dreth Heddwch) Y Deml Heddwch, Caerdydd. Allforiodd Prydain werth £5.1 biliwn o arfau y llynedd. Gwerir o leiaf £384 miliwn o'n trethi ar gynnal y fasnach arfau Brydeinig, ac mae 8 o bob 10 o'r arfau a werthir yn mynd i'r Trydydd Byd. *Conscience, ffôn/ffac: (0171) 561 1061*

**Mehefin 21** 10.30 am Grwp Cefnogi Palestinia: Taith Gerdded Noddedig ger Sain Dunwyd, De Cymru. *Ffoniwch Beattie Smith (01222) 886113 neu Myrla Eastland (01222) 864793*

**Gorffennaf 12** 11.00 am tan tua 4.00pm Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Stryd y Deml, Llandrindod Cyngor CND Cymru, dewch i ymuno â ni! Croeso mawr i bob aelod a chynrychiolydd grŵp cysylltiedig. *Cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cenedlaethol am fwy o wybodaeth.*

**Gorffennaf 19** Codi ymwybyddiaeth am garcharorion gwleidyddol o Balestiniaid. Côr Cochion yn canu yn yr Ai, Caerdydd. Stondin ac arddangosfa. *Ffoniwch Beattie Smith (01222) 886113*

**Gorffennaf 19-20** Rhywle'n agos i chi... Hedfanwch eich Barcud! Penwythnos gweithredu yn erbyn Hedfan isel Milwrol. Am fwy o wybodaeth, gweler yr erthygl.

**Awst 1-11** Gwersyll heddwch ym Mhencadlys NATO, Brwsel *Cysyllter â: For Mother Earth, Gewad 15, 9000 Gent, Gwlad Belg Tel 0032 9 233 4924 email: abolition@motherearth.knooppunt*

**Awst 2-9** Yr Eisteddfod Genedlaethol, Y Bala, Meirionnydd. Angen cymorth Cymry Cymraeg! *Cysyllter â Rod Stallard (01550) 750 260*

**Awst 8-10** Gwersyll Heddwch Menywod Aldermaston a Gwersyll Heddwch Ieuenctid CND gyda Thaith Feiciau Menywod ar y Ffordd dros Heddwch *Cysyllter â: Siân (01222) 396563 neu (0117) 909 9448*

**Awst 6** a 9 52fed mlywddiant Hiroshima a Nagasaki. Coffa rhyngwladol. *Am weithgareddau yng Nghymru ac ar Faes y Steddfod, cysyllter â CND Cymru*

**Awst 9** Rali Dydd Nagasaki wrth y Glwyd Ogleddol, Canolfan Longau Tanfor Faslane, Yr Alban: Rhowch Rybudd i Fynd i Trident! Ar y diwrnod hwn, bydd protestiadau y tu allan i ganolfannau niwclear ledled y byd i alw sylw at y modd y mae gwledydd fel Prydain wedi methu ufuddhau i farn y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol y byddai defnyddio neu fygwth defnyddio arfau niwclear yn groes i gyfraith ryngwladol.

**Awst 11** Achos llys Menywod Greenham yn Llys y Goron, Reading

**Medi 20** 11.00 am Cyfarfod Blynyddol CND Cymru, Y Deml Heddwch. Mwy o fanylion i ddilyn – siaradwyr a gweithdai. Croeso i bob aelod a chynrychiolydd!

**Medi 25-28** Cynhadledd Plaid Cymru, Aberystwyth. Gobeithiwn fod â phresenoldeb CND Cymru yno. Os gellwch helpu, cysylltwch ag CND Cymru os g. yn dda.

**Rwyf eisiau ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear**

Enw ____________________

Cyfeiriad ____________________

____________________

____________________ Côd Post ______

Ffôn ____________________ Amgaeaf siec/GP am ______

yn daladwy i CND Cymru. Cwpl £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3. Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch. 56 Mackintosh Place, Y Rhath, Caerdydd CF2 4RQ.

# CYSWLLT CND CYMRU

Y SIOP HEDDWCH, 56 MACKINTOSH PLACE, ROATH, CAERDYDD

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL
**Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Sîr Gaerfyrddin SA20 OLR Ffon/facs (01550) 750260

CADEIRYDD
**David Morris MEP (01792) 643542**

CANOLBARTH
**Olwen Davies** (01970) 611994
**Rod Stallard** (01550) 750260

DE CYMRU
**Ray Davies** (01222) 889514

GOGLEDD CYMRU
**Dave Andrews** (01978) 310491

AELODAETH
**Aelodaeth CND Cymru d/o Y Siop Heddwch**

MUDIADAU CYSYLLTIEDIG
**Rhoda Jones** (01766) 762739

MASNACHU
**Jan Henderson** (01792) 830330

TRYSORYDD
**Jean Bryant**
16 Ty'n y Cymer Close,
Y Porth, Rhondda CF39 9DF

**Mwy o wybodaeth, syniadau neu gynigion o gymorth? Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os gwelwch yn dda.**


# Prifysgol Morgannwg

## Yr Amgylchedd a Gwerthoedd Cymdeithasol BA(Anrhyd)


Gradd flaengar yn cynnig dull cyfannol o astudio'r amgylchedd

Nifer gyfyngedig o lefydd ar gael ym mis Medi 1997

Ymholiadau: 01443-482121

http://www.prop.glam.ac.uk/deptinfo/esv-info.html
Côd UCAS: FL93






# Peace Shop

**56 Mackintosh Place, Roath, Caerdydd CF2 4RQ. Tel: 01222 489260**

**Gennym ni mae'r stoc fwyaf yng Nghymru o nwyddau o – Traidcraft, Amnesty Rhyngwladol, Greenpeace, Cyfeillion y Ddaear, CND, Earthcare, Unicef. Mae gennym stoc helaeth o lyfrau a chylchgronau ynghyd â gemwaith o waith llaw a chrefftau ac, wrth gwrs, crysau-T a sticeri.**


# Be fyddwch chi'n 'i wneud ym mis Awst?

Helpwch i hyrwyddo ein hymgyrch dros heddwch, cyfiawnder a byd di-niwclear!

Eleni, cynhelir y Steddfod Genedlaethol yn y Bala, o'r 2il i'r 9fed o Awst. Os ydych yn siarad Cymraeg neu'n dysgu, mae arnom angen eich help i alw sylw at ein hymgyrch ym mhabell CND Cymru.

Cewch docyn mynediad am ddim ac amser yn rhydd i fynd o gwmpas y Maes – ac fe gewch bod Eisteddfodwyr yn llawn cydymdeimlad!

Os gallwch helpu, cysylltwch â Rod Stallard ar (01550) 750 260, da chi.

Eisteddfod Genedlaethol meirion a'r cyffiniau
awst 2 - 9 august 1997

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Gorffennaf 1997.
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (01550) 750260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (01222 488748) am fanylion
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw 7fed Mawrth 1994.
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.